

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn  
Neuadd Bentref Llanelltyd  
Nos Fawrth, Mawrth 12, 2019 am 7.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cyngorwyr: Geraint Rowlands (Cadeirydd), Elfed ap Gomer, Llinos Williams, Gethin Williams, Gareth Ellis. Hefyd Peredur Jenkins, Henry M. Edwards.

**1. Ymddiheuriadau:** John Hughes (angen anfon cerdyn gwellhad iddo).

**2. Datgan diddordeb:**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 12, 2019**

Wedi cywiro 'defibulatot' i ddarllen 'defibulator' yn Eitem 5.a., cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 12, 2019**

Eitem 5.e. Roedd camgymeriad wedi ei wneud gyda thaliad i G.W. Jones. Rhoddwyd taliad o £62.80.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau gyda'r Banc ynglŷn â'r camgymeriad.

Eitem 10.a. Llythyr (12/3/2018) oddi wrth Ivor Thompson, Gwasanaeth Tir a Choed. Amcan bris clirio coeden yn Tŷ y Cornel, Bontddu £150. Clirio coed rhwng Cae Beudy a Llyn Tan y Graig, Llanelltyd £288. Mae'n cynwys, er gwybodaeth, mai Cyfoedd Naturiol Cymru sydd wedi bod yn gyfrifol yn y gorffennol am glirio'r gwaith yma.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyfoedd Naturiol Cymru i wneud y gwaith.

**5. Materion Ariannol**

a. Llythyr (12/2/2019) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud.

Ffurflen Aelodaeth oddi wrth Un Llais Cymru yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2019 / 2020. Tâl Aelodaeth yw £89.

Penderfynwyd talu'r tâl.

b. Llythyr (15/2/2019) oddi wrth Elusen Ambiwlans Cymru yn diolch am ein rhodd o £100.

c. Llythyr oddi (14/2/2019) oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu yn diolch am ein rhodd o £400.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MAWRTH 12, 2019

ch. Llythyr (14/2/2019) oddi wrth Theatr Bara Caws cyf yn diolch am ein rhodd o £50. Maent yn perfformio Costa Byw yn Theatr Fach, Dolgellau ar 4/4/2019 am 7.30yh.

d. Llythyr (13/2/2019) oddi wrth Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £50.

dd. Llythyr (14/2/2016) oddi wrth Neuadd Bentref Llanelltyd yn diolch am ein rhodd o £600.

e. Llythyr (18/2/2016) oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £100.

f. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Cyngor ar Bopeth yn diolch am ein rhodd o £100.

ff. Llythyr (1/3/2019) oddi wrth Llygad Y Dydd yn diolch am ein rhodd o £50.

g. Llythyr (18/2/2019) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gyda Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-2020. Mae'r adroddiad ar we [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2019 i 2020](#) Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

Yn yr adroddiad gall unigolyn wrthod derbyn taliadau yn rhanol neu'n llwyr os ydynt yn dymuno a gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.

Taliadau tuag at gostau a threuliau:

Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.

Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth:

Mae opsiwn gan bob cyngor i ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth. Lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 45c y filltir.

Cytunodd yr aelodau ddim i dderbyn y taliad o £150. Derbyniwyd llythyr ganddynt yn nodi hyn.

h. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Maent angen cymorth ariannol.

i. Derbyniwyd prisiau i wella llwybr cyhoeddus o Llanelltyd i'r Golff. Gweler eitem 10.a. Cofnodion Ionawr 8, 2019.

Pris derbyniwyd gan Meurig Ashton oedd £800.

Pris derbyniwyd gan XT Plant Ltd oedd £3,540 + £2,000 i glirio gwastraff o'r safle.

Ni dderbyniwyd pris oddi wrth Ivor Thompson.

Cafwyd gwybod (12/3/2019) gan Swyddog yn y Priffyrdd mae cynllun yn cael ei baratoi gan Cyngor Gwynedd i gario allan gwaith sylweddol ar y llwybr yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Penderfynwyd i Cyngor Gwynedd gwneud y gwaith.

Penderfynwyd diolch y contractwyr am eu prisiau i wneud y gwaith.

1. Balans yn y banc ar 29 Chwefror, 2019: £7,539.79.

## **6. Mynwent Llanelltyd**

a. Llythyr (11/3/2018) oddi wrth Gwasanaeth Rheoli Gwastraff a Strydoedd, Cyngor Gwynedd yn ymwneud â Chasglu Gwastraff Masnachol o'r fynwent yn 2019/2020. Os am wasanaeth fel y llynedd, bydd y casgliad yn wythnosol gydag un bin olwyn 240ltr drwy'r flwyddyn, y ffi i'w dalu yw £348.00 (y swm llynedd oedd £326.00). Bydd anfoneb am y swm yn cael ei anfon ymhellach ymlaen.

Penderfynwyd derbyn y gwasanaeth.

## **7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/65/263E. Amrywio Amod 7 o Ganiatâd Cynllunio NP5/65/263A i newid agoriadau ffenestr / drysau, diddymu ffenestri to, newid lleoliad y ffliw, newidiadau i'r ports, newid deunyddiau'r wal allanol ar y llawr is-ddaebar a newid canllaw'r balconi. Allt Fach, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais ond gyda sylw mi ddylai'r cynllun gynnwys gwaith cerrig ar wyneb y tŷ i weddu gyda'r ardal a'r tai cyfagos.

## **8. Gohebiaeth**

a. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Uwch Syrfëwr Stadau yn ymwneud â Safle Ysgol Clogau.

Yng ngweithredoedd yr ysgol mae'r ysgol i gael ei throsglwyddo yn ôl i olynwyr mewn teitl y rhoddwr gwreiddiol. Maent wedi holi ni ac wedi comisiynu hanesydd i geisio adnabod olynwyr y rhoddwr gwreiddiol. Ni fu'n bosibl i olrhain olynwyr ac felly byddent yn gosod rhybuddion mewn dau bapur newydd cenedlaethol, yn y papur lleol ac ar yr eiddo, cyn aros am gyfnod o 3 mis rhag ofn y daw olynwyr i'r fei.

Pe na fydd olynwyr yn cael eu hadnabod, byddent mewn sefyllfa i werthu. Yn unol â'r farn gyfreithiol bydd rhaid dal yr arian ar ymddiriedolaeth er budd yr olynwyr posibl am byth, ond byddent yn ceisio barn bellach ar yr elfen yma.

Byddent yn e-bostio ni ymhellach i gadarnhau'r dyddiadau y bydd y rhybuddion i'w gweld yn y wasg.

Anfonwyd copi o'r llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (20/2/2019) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn rhoi gwybod bydd gwaith coed, ffensio yn cael ei wneud ar Pont Figra sydd ar lwybr cyhoeddus.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU  
COFNODION MAWRTH 12, 2019

c. Llythyr (21/2/2019) oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru trwy law Elfed ap Gomer. Mae'r llythyr yn rhoi gwybod mai Swyddfa Archwilio Cymru bydd yr archwilydd wedi 2019/2020 ac nid BDO.

**9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

a. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno codi'r dreth 5.8% am 2019/2020. Mae hyn oherwydd gostyngiad yn yr arian mae'r Cyngor yn ei gael gan y Llywodraeth ac oherwydd chwifiant. Er i'r dreth cael ei godi bydd ddim yn ddigon i'r Cyngor rhoi eu gwasanaethau yn effeithiol.

b. Cafwyd wybod bod Peredur Jenkins yn ymddeol o Gabinet Cyngor Gwyneth ym mis Mawrth.

**10. Materion Brys**

a. Agorwyd (14/2/2019) drws Toiledau Bontddu i Swyddog oedd yn gweithio ar ran Cyngor Gwynedd i gael dŵr i lanhau'r lle chwarae.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd mae angen:

- i. ysgubo'r llwybr sydd ar ochr ffordd A470 o'r Pil i Bont Wnyn, Llanelltyd.
- ii. ysgubo'r ffordd a chlirio draeniau yn Taicynhaeaf. Hefyd, atal dŵr o lifo i'r ffordd o'r llwybr cyhoeddus wrth Ar-y-Graig.

c. Penderfynwyd rhoi gwybod i Ivor Thompson, Gwasanaeth Tir a Choed, i docio canghennau coed sy'n gwyro i'r ffordd wrth Ty'n y Cornel, Cwm Hirgwm, Bontddu. Iddynt gysylltu â Gethin Williams am leoliad y coed.

ch. Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Paul Williams i gael gwybod os mae am barhau fod yn aelod o'r Cyngor.

-----